

## Ffarwelio a diolch

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae nifer o weithwyr a gweinidogion Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi symud ymlaen o'u galwedigaethau, un ai i feysydd gwahanol neu wedi ymddeol o'u gweinidogaeth.

Bnawn lau, 6 Hydref, daeth criw da ynghyd i fwyty Tŷ Golchi ym Mangor i ddymuno'n dda i dair ohonynt, a wnaeth gyfraniad nodedig iawn yn eu meysydd gwahanol. Bydd enw **Delyth Oswy Shaw** yn gyfarwydd i lawer, o gofio amdani fel swyddog Datblygu Cyngor yr Ysgolion Sul yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf, ac yna fel golygydd cyfresi o werslyfrau i Ysgolion Sul yn y nawdegau. Aeth ymlaen i weithio ym maes y gwasanaethau cymdeithasol, cyn troi'n ôl i waith eglwysig, gan dreulio'r blynyddoedd olaf yn gweithio fel Swyddog Hyfforddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Bellach, mae Delyth wedi ymddeol o'r swydd honno, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol. Dros y blynyddoedd trefnodd Delyth ddegau o gyrsiau hyfforddiant mewn swydd i weinidogion a lleygwyr, a mawr yw ein dyled iddi am ei chyfraniad nodedig.



Delyth Oswy a Susan gyda rhai o'u ffrindiau coleg

Yn yr un modd cafwyd cyfle i ddiolch a ffarwelio â **Llinos Morris** o Gaernarfon. Treuliodd Llinos gyfnod o 15 mlynedd yn gweithio yn Eglwys Noddfa, Caernarfon, a chyn hynny fel gweithiwr plant ac ieuentid yn sir Drefaldwyn. Eto, gwnaeth gyfraniad nodedig yn Noddfa, a gwelir ei cholli yn fawr. Mae Llinos wedi ei hyfforddi i fod yn arbenigwraig yn y maes cwnsela, ac yn dechrau ar swydd newydd yn cefnogi myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor.

Un arall y cafwyd cyfle i ddiolch iddi oedd **Susan Williams**, ac eto mae tymor gwasanaeth Susan dros waith yr eglwysi'n

cwmpasu pedwar degawd. Gwnaeth gyfraniad arbennig ym maes canu a mawl, fel aelod o grŵp addoliad Canu'n Llon, aelod o banel creu'r llyfr emynau *Canu Clod!* ac fel cyfansoddwraig emynau cyfoes. Dros y blynyddoedd diwethaf hyn bu'n gweithio i gynllun EFE yn ardal Llanberis ac fel gweithiwr plant ac ieuentid yng Nghaersalem, Caernarfon. Eto, dymunwn yn dda i Susan wrthi iddi hi ymddeol o'r gwaith hwnnw.



Llinos Morris

Un arall sydd newydd newid swydd yw **Jennifer Roberts**. Wrth ddiolch am ei thymor gwasanaeth, meddai Gwenda Jones o gapel Seion, Llanrws:

'Daeth Jennifer Roberts i weithio i Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy ym mis Mai 2019 fel Gweithiwr Teuluoedd, Plant ac Ieuentid ar gytundeb o dair blynedd. Oherwydd Covid a'r cyfnodau clo fe amharwyd rywfaint ar ei gwaith ac fe barhaodd y swydd am dri mis ychwanegol tan Awst 2022, pan ddaeth yr arian i gefnogi'r cynllun i ben. Fel Jennifer Duncalf yr ydym ei hadnabod erbyn hyn gan iddi briodi hefyd yn ystod ei chyfnod gyda ni.

'Mae colli Jennifer wedi bod yn ergyd drom i weithgareddau a chenhadaeth yr eglwysi i deuluoedd, plant ac ieuentid yn yr ardal yma. Maen nhw yn dweud - os ydych chi eisiau help neu rywbeth wedi ei wneud yn iawn, gofynnwch i berson prysur. A dyna'r union ddisgrifiad o Jennifer - doedd hi byth yn gwrthod helpu neu drefnu ar gyfer gweithgareddau Cristnogol.



Jennifer gyda'r Parch. Gerwyn Roberts

'Byddwn i'n dweud mai cenhadu oedd cryfder Jennifer, ac roedd wrth ei bodd yng nghanol gweithgareddau oedd yn cyflwyno'i Gwardwr yn yr ysgolion Sul, clybiau CIC, Llan Llanast, ac mewn eglwysi ac ysgolion cynradd a thrwy gyfrwng Zoom. Roedd hi hefyd yn cefnogi ac yn chodi hyder unrhyw un oedd eisoes yn stryglu i gadw gwaith plant ac ieuentid yn fyw yn y capeli. Dymunwn fendith Duw arni, i ba gyfeiriad bynnag y bydd yn mynd yn y dyfodol.'

**Daeth tymor dau weinidog i ben hefyd o fewn eu gofalaethau, sef y Parch. Aled Huw Thomas, Capel y Crwys, Caerdydd, a'r Parch. Hywel Rhys Edwards, y Parc a'r Bala.**

Mewn oedfa arbennig nos Sul, 25 Medi, dan arweiniad y Parch. Glyn Tudwal Jones, fel Cyn-lywydd Henaduriaeth Morgannwg Llundain, rhyddhawyd y Parch. Aled Huw Thomas fel Gweinidog ar ofalaeth Eglwys y Crwys. Anerchwyd, ar ran y blaenoriaid, gan Thomas Williams. Dymunwyd yn dda i Aled ar ei ymddeoliad a chyda phob bendith iddo ef a Delyth i'r dyfodol.

Yn yr un modd diolchwn i Hywel am ei dymor gwasanaeth fel gweinidog cydwybodol a diwyd, yn Eifionydd ac yna ym Meirionnydd. Wrth iddo ymddeol ddiwedd mis Hydref, rhannodd Hywel y geiriau hyn â ni:

[\*\(parhad ar y dudalen nesaf\)\*](#)

## Farwelio a diolch

(parhad o dudalen 1)

### Pen y dalar

Yn ystod fy nghyfnod yn Llŷn ac Eifionydd sylwais ar nifer o gartrefi oedd â'r gair 'talar' yn eu henw. Gair diarth oedd i mi, hogyn o'r dref, a rhaid oedd holi amdano. Dyma ddywed *Geiriadur Prifysgol Cymru*: 'Rhimyn o dir ar hyd ymyl cae a adewir heb ei aredig i adael lle i'r aradr droi, hefyd yn *ffig*; (geir.) ffin.'

Sylwer o'r diffiniad fod yna ddisgwyl troi a thorri cwys newydd yn y gair. Daw i'm meddwl eiriau Iesu am rhoi llaw ar yr aradr a pheidio edrych yn ôl, a'r siars yn y Llythyr at yr Hebraeid i gadw ein llygaid ar Iesu, fel y bôm yn torri cwys cywir a syth. Eto, mae'n debyg mai'r ystyr yn yr ymadrodd 'cyrraedd pen y dalar' sydd fwyaf cyfarwydd i ni heddiw.

Ers mis Mawrth 2020, pryd y cefais fy nharo o'm cwys gan yr aflwydd oedd (ac sydd o hyd, cofiwch) yn cerdded ein gwlad, simsan braidd fu fy nhaith o un pen i'r cae i'r pen draw. Rwyf wedi cael cyfnodau o adferiad a chryfder, ond y gwir yw fy mod wedi amau ar brydiau a allwn gyrraedd pen y dalar, a'r syniad o droi a chychwyn eto yn pwysu'n drwm.

Er fod sawl symptom Cofid Hir wedi cilio wrth i mi ddisgu sut i fyw â'r cyflwr, yn anffodus i mi fel gweinidog, pregethu, ymweld a phwyllgora yw'r gweithgareddau sy'n fy nhrethu fwyaf. Diwedd hyn i gyd yw fy mod yn ddisymwth, yn anffodus, oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth, ar gyngor meddygol wedi gorfod ymddeol ar sail iechyd.

I un nad oedd bwriad ganddo gamu allan o'r tresi wedi cyrraedd oed yr addewid, mae hyn wedi bod yn ergyd

anodd. Eto, yr adnodau roddodd Iesu ar fy nghalon ddechrau Medi, oedd y rhai a'm harweiniodd i ddilyn ei alwad i'r weinidogaeth: "Peidiwch â meddwl am y pethau gynt, peidiwch ag aros gyda'r hen hanes. Edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd; y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod? Yn wir, rwy'n gwneud ffordd yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch." (Eseia 43:18-19; BCND)

Rhaid i mi edrych ato ef eto, ac unwaith eto rhoi fy llaw ar yr aradr a thorri cwys newydd yn ei deyrnas.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r ofalaeth yma, a'r Cyfundeb, am eu dealltwriaeth a'u maith amynedd dros y cyfnod diwethaf hwn. Gobeithiaf y gallaf ddal i fod o ddefnydd rywfodd iddynt yn y dyddiau anodd sydd o'n blaen fel Eglwys Crist yng Nghymru annwyl.

## Goleuni, halen a Golud Encil Sasiwn Genhadol y De

Cynhaliwyd yr encil yr arferid ei gynnal yn Nhrefeca yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin, ar 22 Medi. Daeth dros ddeg ar hugain ohonom ynghyd o ardaloedd yn nhair henaduriaeth y de.

Arweiniwyd y diwrnod gan yr Archddiacon Eileen Davies o Lanllwni. Hawliodd ein sylw o'r dechrau gyda'i dull effeithiol a chartrefol o gyfathrebu. Wrth ddechrau ei chyflwyniad holodd pa adran o'r Beibl sydd yn rhoi arweiniad i ni ac yn ein cynorthwyo o ddydd i ddydd. Dyna fyddai'n gofyn i ni ei ystyried yn ein grwpiau yn y prynhawn. Wrth gyflwyno adnodau o Efengyl Mathew, Pennod 5, sef 'Chwi yw goleuni'r byd' a 'Chwi yw halen y ddaear', ei neges i ni oedd anogaeth i weithredu'r geiriau sydd yn y Beibl yn ein bywydau bob dydd; yn syml, dechrau â'r geiriau yn y Beibl a'u byw yn ein bywydau. Wrth ystyried hyn, sefydlodd Eileen Davies yr elusen Tir Dewi, gyda chefnogaeth Esgob Tyddewi ar y pryd, er mwyn rhoi cymorth a chynghor i amaethwyr a gweithwyr yn y sector amaethyddol, gan roi clust i wrando iddynt. Erbyn hyn mae Tir Dewi yn gwasanaethu Cymru gyfan ac mae aelodau o dîm cynghori Tir Dewi ym mhob rhan o Gymru.



Roedd grwpiau'r prynhawn yn rhoi cyfle i rannu adnod, emyn a phrofiad, ac fe wnaeth hyn, yn ogystal â'r cyfnod o weddi tawel, gyfoethogi'r diwrnod yn fawr.

Cyflwynodd Sarah Morris y llyfryn newydd am eleni *Gobaith yn Iesu: yr Alfa a'r Omega*. Mae'n cynnwys gwasanaethau, astudiaethau, prosiectau elusennol rydym yn eu cefnogi yn Romania, Mizoram, Uganda a Lesotho a phrosiectau crefft newydd – megis gwau neu wno matiau synhwyraidd a gwau bwtis babanod i'r elusen Baby Basics.

Cawsom ein cyflwyno i raglen Golud Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Byw

gyda Dementia, a dysgu am waith Ffrindiau Dementia. Yn rhan o'r rhaglen, cynhyrchwyd llyfryn arbennig gan swyddogion Adran y Chwiorydd. Mae'n cynnwys penillion o emynau, adnodau a lluniau o leoedd adnabyddus yng Nghymru ac mae bwriad hefyd i gynhyrchu CD o emynau sydd wedi bod yn gyfarwydd i ni ers bore oes.

Cawsom fendith o'r encil eto eleni. Roedd yn gyfle i gymdeithasu, i rannu, i ddysgu a chael ein herio wrth ymadael a dychwelyd i'n heglwysi.

*Eleri Davies a Dilys Lloyd*



## Y Silff Lyfrau



### Ar y blaen: Testament Newydd Luther

Ymddangosodd cyfieithiad Martin Luther o'r Testament Newydd i'r Almaeneg ym mis Medi 1522, union bum canrif yn ôl, ac fe'i hadweinir fel y *Septembertestament*. Roedd yn rhaid aros ddeuddeg mlynedd arall cyn gweld cyhoeddi ei gyfieithiad o'r Hen Destament yn 1534. Cyfieithodd Luther, wrth gwrs, yn syth o destunau ieithoedd gwreiddiol y Beibl, yr Hebraeg a'r Groeg. Roedd cyfieithiadau o'r Testament Newydd i'r Almaeneg wedi eu gwneud cyn hyn, ond roedd y rheiny'n rhai o fersiwn Lladin y Beibl, sef y Fwlgat. Luther oedd yr arloeswr yn hyn, yn gymaint â'i fod y cyntaf yn Ewrop yr unfed ganrif ar bymtheg i gyfieithu 27 llyfr y Testament Newydd o'u hiaith wreiddiol. Fe'i dilynwyd gan gyfieithwyr Protestannaidd eraill Ewrop, gan gynnwys William Tyndale i'r Saesneg a William Salesbury i'r Gymraeg. Parhaodd y Pabyddion i gyfieithu o'r Fwlgat hyd yr ugeinfed ganrif pan ganiatodd y Pab Pius XII iddynt gyfieithu o'r ieithoedd ysgrythurol yn 1943. Y cyfieithiad a adnabyddir fel *Beibl Jerwsalem* oedd yr un cyntaf i fanteisio ar ganiatâd y Pab, a gwnaed hynny i'r Ffrangeg yn wreiddiol yn Jerwsalem yn 1956.

Cyhoeddwyd testun Erasmus o Roeg y Testament Newydd yn 1516. A hwnnw i bob pwrpas oedd yr un a ddefnyddiwyd gan yr *Authorized Version* Saesneg (1611) a Beibl William Morgan (1588) ynghyd â diwygiad Dr John Davies ohono (1620). Ond erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe'i disodlwyd gan destunau a adlewyrchai'r darganfyddiadau o lawysgrifau llawer cynharach na'r llond dwrn a ddefnyddiodd Erasmus, yn ogystal â'r ymchwil fanwl yn y maes testunol a oedd mewn bri erbyn y cyfnod hwnnw. Yr argraff a geir o'r modd yr aeth Erasmus ati i gyflwyno'i destun Groeg o'r Testament Newydd i'r argraffydd yn Basel yw mai mewn ffordd ddigon ffwrdd â hi y gwnaeth hynny.

Y gwir yw nad datgelu ei argraffiad o'r testun Groeg oedd ei brif amcan ar y pryd, ond cyflwyno'i gyfieithiad newydd o'r Fwlgat, a chyhoeddi'r Groeg ochr yn ochr ag ef er mwyn dangos i'r ychydig a allai ddarllen y Groeg sail ei gyfieithiad


newydd i'r Lladin. Disgwyliai y byddai ei gyfieithiad newydd i'r Lladin yn ennyn cryn wrthwynebiad, a dyna'n union a ddigwyddodd.

Mater arall y dylid ei nodi yw bod cysylltiad agos, mae'n siŵr, rhwng ymddangosiad testun Groeg Erasmus yn 1516 a digwyddiadau noswyl Gŵyl yr Holl Saint yn Wittenberg y flwyddyn ganlynol. Y diwrnod hwnnw hoeliodd Luther ei 95 Datganiad ar fur eglwys y castell yno – digwyddiad a roddodd fod i'r Diwygiad Protestannaidd, wrth gwrs. Dichon mai cam ar y ffordd at gyfieithiad 1522 oedd hwnnw.

Un o'r adrannau mwyaf cynhenus o ran testunau Groeg y pryd hwnnw yw'r hyn a ddynodir yn y 'Comma Ioannaidd', fel y'i gelwir, sef y geiriau canlynol sydd wedi eu hitaleiddio yn y dyfyniad o Epistol Cyntaf Ioan 5.7b–8a, sy'n dilyn yn ôl cyfieithiad Beibl 1620: 'Oblegid y mae tri yn tystiolaethu yn y nef; y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn yn ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaear; yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed: a'r tri hyn, yn un y maent yn cytuno.' (Gyda llaw, ystyr y gair 'Comma' yn y cyswllt hwn yw rhan o lyfr neu frawddeg.)

Nid oedd Erasmus am ei gynnwys yn ei destun am nad oedd tystiolaeth lawysgrifol Roegaid i gyfiawnhau hynny, ac felly nis ceir yn nau argraffiad cyntaf ei destun, 1516 a 1519. Gan mai'r ail argraffiad a ddefnyddiodd Luther wrth gyfieithu, nid ymddengys yn ei gyfieithiad yntau. Ond fe'i ceir yn yr *Authorized Version* yn sgil y ffaith i William Tyndale ddefnyddio argraffiad 1522 o destun Groeg Erasmus a gynhwysai'r 'Comma' wedi iddo ddod dan bwysau i'w gynnwys yn ei destun. Eto, parhaodd yn ddrwgdybus ohono gan na allai fod yn sicr o'i ymddangosiad mewn unrhyw lawysgrif Roegaid. O safbwynt y Beibl Saesneg fe'i cynhwyswyd yn yr *Authorized Version*, fel y gwelso, gan fod hwnnw, yn eironig iawn, o gofio dienyddio Tyndale ar orchymyn Harri'r Wythfed, yn pwyso'n drwm ar waith Tyndale: ie, yr un cyfieithiad a adnabyddir yn UDA fel y *King James Bible*. Mae canrif, yn wir, yn amser byr mewn hanes!

Campwaith llenyddol Luther oedd ei gyfieithiad o'r Beibl, a pharhaodd i'w



ddiwygio hyd ddydd ei farwolaeth yn 1546. Llwyddodd i greu cyfieithiad a oedd yn gyfuniad o iaith llys y tywysog yn Saxony a thafodieithoedd y werin Almaeneg y daeth ar eu traws wrth grwydro'r wlad. Yn wahanol i William Salesbury, llwyddodd i lunio cyfieithiad a oedd yn ddealladwy yn syth i'w gyd-wladwyr. Yn wir, fel yr honnir am yr Esgob William Morgan yn achos y Gymraeg, ei gampwaith ef a siapiodd yr iaith Almaeneg am byth. 'Ceisiais,' meddai, 'wneud Moses mor Almaeneg fel na allai neb gredu mai Iddew ydoedd.'

Roedd gan Luther ragfarn yn erbyn dau o epistolau'r Testament Newydd yn arbennig, sef y Llythyr at yr Hebraeid ac Epistol Iago. Galwodd yr epistol hwnnw, fel y gŵyr pawb, yn 'Epistol o wellt' am y credai ar gam ei fod yn hyrwyddo cyfiawnhad drwy weithredoedd, a hynny'n groes i'r ddysgeidiaeth fawr a ddarganfu yn Paul, sef cyfiawnhad drwy ffydd yn unig. Mae'n eironig mai oddi wrth Iago y cafodd yr ymadrodd 'drwy ffydd yn unig' gan nad yw'n ymddangos fel y cyfryw yn yr un o lythyrau Paul. Eto, ni rwystrodd y ffaith honno Luther rhag ei gynnwys yn ei gyfieithiad o'r Rhufeiniaid 3:28, sy'n darllen yn BCN: 'Ein dadl yw y cyfiawnhair rhywun trwy gyfrwng ffydd yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith'. Ychwanegodd Luther yr ymadrodd 'yn unig' (*allein*) at ei gyfieithiad o'r adnod, gan ei gysylltu â'r enw 'ffydd'.

Yn sicr, cyfiawnhad drwy ffydd yn unig oedd conglaen ei gyflwyniad o'r Efengyl, ond ni ddylid tanbriso'i bwyslais hefyd ar 'fod yng Nghrist'. Daeth hyn fwyfwy i'r amlwg mewn astudiaethau diweddar o ddiwinyddiaeth Paul. Dyma bwnc y gobeithaf roi sylw pellach iddo mewn adolygiad o gyfrol ddiweddar sy'n pwysleisio hynny.

John Tudno Williams

## Ffilmiau Ffydd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd twf aruthrol mewn cynhyrchu ffilmiau Cristnogol Cymraeg – a bellach gwelir tua 40 o recordiadau newydd yn cael eu rhyddhau bob wythnos. Mae'r rhain i'w gweld yn rhad ac am ddim ar sianel YouTube, gyda chynnwys sy'n addas ar gyfer pob oed.

Aed ati tua dwy flynedd yn ôl i greu sianel deledu Gristnogol Gymraeg, ac erbyn hyn mae modd gwyllo dros 7,000 o raglenni Cristnogol ar TCC. Mae modd gweld yr holl gynnwys drwy glicio ar adran TCC o fewn gwefan [www.cristnogaeth.cymru](http://www.cristnogaeth.cymru), sef gwefan o dan ofal Cyngor Ysgolion Sul Cymru.

Mae'r sianeli gwahanol sydd ar gael yno yn cynnwys:  
oedfaon cyflawn  
cyfresi o bregethau  
testun a darlenniadau Beiblaidd  
darlenniadau Beibl William Morgan  
astudiaethau Beiblaidd  
gwersi ysgol Sul i Oedolion  
caneuon cyfoes  
emynau traddodiadol  
caneuon Cristnogol i blant  
adnod ac emyn  
carolau i bob oed  
sgwrs a chreffft i blant



## Sul Adferiad, 30 Hydref



Bydd dydd Sul, 30 Hydref 2022, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysy nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, Cynnal, Enfys, y Stafell Fyw, a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebraeid 13:3: 'Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!' Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebraeid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw.

Mae pawb ohonom, o bryd i'w gilydd ar lwybr bywyd, yn dyheu am heddwch, neu lonydd – rhag problemau, rhag y pethau sy'n ein caethiwo neu'n bygwth gwneud hynny, ac weithiau rhag pobl eraill: 'Gad i mi fod. Gad lonydd i mi.' Dyna'r mynegiant plaen o'n teimladau ar adgau felly. Ond nid yw 'heddwch' yn yrystyr hwnnw bob tro'n bosibl – ni allwn ddianc rhag sefyllfaoedd, pethau, na

gwersi ysgol Sul ar-lein  
cartwnau Beiblaidd i blant  
sgyrsiau i ieuencid  
sgyrsiau beibl.net i bobl ifanc  
cartwnau Nadolig i blant  
myfyrdodau ar eiriau emynau Cymraeg  
newyddion a gwybodaeth  
cynllun astudiaethau 'Ar y Ffordd'  
sgyrsiau a darlithoedd  
tystiolaethau  
gweddi a cherddi'r gyfres *Torri Syched*  
astudiaethau Cyfres y Beibl  
Pobl y Beibl  
myfyrdodau Ffeithiau'r Ffydd  
myfyrdodau ar oleuni  
cyfres myfyrio ar gariad

O fewn pob un sianel ceir dewis eang a helaeth o ffilmiau Cymraeg. Felly, ewch ati i chwilio a chwilota.

phobl bob amser, ac yn wir gall fod nad dyna'r peth gorau i'w wneud beth bynnag. Ac mae pobl yn rhy aml yn dianc i leoedd nad ydyn nhw'n cynnig rhyddid yn y pen draw, ond caethiwed – megis alcohol a chyffuriau eraill, gamblo, pornograffi. A gwaith – gall cyflwr y 'gwaithoholig' fod yn gaethiwed go iawn hefyd.

Ond fe fedrwn oll weddio am heddwch dyfnach – am dangnefedd, yr heddwch mewnol, a all fod yn eiddo i ni hyd oed yng nghanol trafferthion a dioddefaint.

Yn ein gwasanaeth eleni, felly, sydd wedi ei lunio gan Siôn Aled, byddwn yn myfyrio ar feithrin y tangnefedd gwyrthiol hwnnw yn ein bywydau ni ein hunain ac am dywys eraill i brofi'r un iachâd.

Bydd y gwasanaeth ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan: [www.cynnal.wales](http://www.cynnal.wales).

Dyma unfed Sul ar ddeg Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynol, gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

Wynford Ellis Owen  
Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol  
CYNNAL – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr  
efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd  
E-bost: [wynfordellisowen@adferiad.org.uk](mailto:wynfordellisowen@adferiad.org.uk)

## Calan Gaeaf – dieflig ynteu ddiniwed?

Mae'r amser yna o'r flwyddyn wedi dod eto. Mae sgerbydau, gwe pry cop a rhybuddion i beidio â dod i mewn yn ymddangos yng nghartrefi ein gwlad. Ai hwyl ddiniwed yw hyn, neu a oes dylanwad satanaidd ar Galan Gaeaf?

### Y gwreiddiau Celtaidd a Rhufeinig

Mae'r gwreiddiau yn mynd yn ôl i ddyddiau paganaidd y Celtiaid yng ngwledydd Prydain. Enw'r wyl yn yr Alban ac Iwerddon oedd Samhain ('diwedd haf') a Chalan Gaeaf yng Nghymru, Cernyw a Llydaw. Dyma ddechrau'r gaeaf tywyll ac oer, a'r amser pan oedd y ffin rhwng y byw a'r meirw yn torri i lawr - yn eu tyb nhw. Y gred oedd fod ysbrydion y meirw yn dod i achosi trafferth a niwed i'r byw fel rhyw fath o ddialedd. Felly, byddai derwyddon yn cynnau coelcerth i gadw'r ysbrydion hyn draw. Byddai cynydau ac anifeiliaid yn cael eu llosgi hefyd.

Daeth y Rhufeiniaid â'u gwyliau paganaidd hwy i'r pair, fel gwyliau Feralia a Parentalia – i gofio'r meirw ac anrhydeddu cyndadau. Roedd gŵyl Pomona yn wyl i dduwies coed ffrwythau, gerddi a pherllannau. Roedd Lemuria yn wyl i dawelu ysbrydion cyndadau oedd yn codi i ymweld â'u hen gartrefi.

### Cydblethu Cristnogol

Gyda thröedigaeth Cwstennin (312) daeth dylanwad Cristnogol i'n gwledydd ni. Ond er bod y Pabyddion wedi newid y gwyliau Celtaidd/Rufeinig, cydblethu â nhw wnaethon nhw yn y pen draw. Sefydlodd y Pab Boniface Ddydd yr Holl Saint yn 609 i anrhydeddu merthyron eglwys y Gorllewin. Estynnodd y Pab Gregory III yr wyl a'i symud i 1 Tachwedd, dyddiad yr hen wyl baganaidd. Daeth 2 Tachwedd yn Ddydd yr Holl Eneidiau i anrhydeddu'r holl feirw a gweddio dros yr eneidiau oedd yn y purdan.

### Y Diwygiad Protestannaidd

Gyda diwygiad yr unfed ganrif arbymtheg, cafwyd gwrthwynebiad i arferion Calan Gaeaf. Roedd y Diwygwyr yn awyddus i gondemnio'r purdan fel athrawiaeth babaidd, yn hytrach na Beiblaidd. Roedden nhw'n gwrthwynebu'r syniad y gallai'r byw effeithio ar gyflwr y meirw drwy weddi a'r gred y gallai 'saint' weithredu fel cyfryngwyr rhwng pobl a Christ.



### Neges y Beibl

Lefiticus 19:31: 'Peidiwch â throï at ddewiniaid na cheisio swynwyr, oherwydd fe'ch halogir trwyddynt. Myfi yw'r Arglwydd eich Duw.'

Eseia 8:19: 'A phan fydd y bobl yn dweud wrthyich, "Ewch i ymofyn â'r swynwyr a'r dewiniaid sy'n sisial a sibrwd," onid yw'r bobl yn ymhél â'r duwiau, ac yn ymofyn â'r meirw dros y byw am gyfarwyddyd a thystiolaeth? Dyma'r gair a ddywedant, ac nid oes oleuni ynddo.'

Hebreaid 9:27: 'Ac yn gymaint ag y gosodwyd i ddyinion eu bod i farw un waith, a bod barn yn dilyn hynny.'

Daniel 12:2: 'Bydd llawer o'r rhai sy'n cysgu yn llwch y ddaear yn deffro, rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i waradwydd a dirmyg tragwyddol.'

Ioan 5:28: 'Peidiwch â rhyfeddu at hyn, oherwydd y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a'r rhai a wnaeth ddrygioni yn codi i gael eu barnu.'

Mae'r Ysgrhythur yn ein rhybuddio i beidio ag ymhél ag arferion sydd yn cysylltu'r byw a'r meirw. Ein braint a'n cyfrifoldeb ni yw ymghynghori â'r Arglwydd Dduw trwy droi at ei Air, y Beibl. Fe fydd y meirw i gyd yn atgyfodi yn niwedd amser, pan ddaw Iesu Grist yr ail waith, a phan fydd Dydd y Farn.

Trasiedi a thwyll dieflig gŵyl fel Calan Gaeaf yw eu bod yn gwyrddroi ac yn dibrisio materion hollbwysig fel marwolaeth, atgyfodiad a barn, ac yn troi meddyliau pobl oddi wrth yr Efengyl. Mae'r Efengyl honno'n dweud am Feseia sydd wedi marw dros bechaduriaid ac wedi atgyfodi'r trydydd dydd. Oherwydd hynny mae bywyd newydd nawr i bob un sy'n credu ynddo, bywyd helaeth o berthynas agos gariadlon â Duw drwy Iesu Grist, y Bugail Da. Hefyd, mae Ef yn addo y bydd atgyfodiad corfforol maes o law, fydd yn atgyfodiad i nef newydd a daear newydd i bob un o'i bobl.

Felly, gadewch i ni ddefnyddio Calan Gaeaf i geisio wynebu pobl â materion mawr bywyd a marwolaeth, a chyflwyno iddynt y gobaiith byw a'r newyddion da yn Efengyl Iesu Grist.

*John Treharne*

## Hysbysiad am Ofalaeth Newydd

Mewn trafodaethau cychwynnol yn ystod mis Medi 2022 cytunodd cynrychiolwyr saith o eglwysi trawsenwadol yn nhref Caerfyrddin a'r cyffiniau i ffurfio gofalaeth newydd gyda'r bwriad o benodi Gweinidog i'w harwain yn ystod cyfnod cyffrous y blynyddoedd nesaf. Mae'r ofalaeth newydd yn cynnwys yr eglwysi canlynol, gyda chyfanswm presennol o 394 o aelodau:

### Eglwysi Annibynnol

Penygraig, Croesyceiliog  
Philadelphia, Nant-y-caws  
Rama, Upland Arms  
Smyrna, Llan-gain

### Eglwysi Bedyddiedig

Bethania, Talog  
Noddfa, Foelcwan  
Tabernacl, Caerfyrddin

Croesawir ymholiadau gan weinidogion mewn swydd a darpar weinidogion dan hyfforddiant. Am wybodaeth bellach, fe'ch gwahoddir i gysylltu ag Emyr James (Tabernacl) ar 07896242529 ysgrifennydd yr ofalaeth newydd, neu gyda Geraint Roberts (Penygraig) ar 01267 229047, cadeirydd yr ofalaeth newydd.

## ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 5 Abraham yn y Stori Fawr, Duw mewn Cyfamod

### Darllen: Genesis 15

Un o'r pethau sy'n greiddiol i holl stori fawr y Beibl yw'r gwirionedd mewn perthynas â'r Duw sydd mewn cyfamod. Fel y gwyddoch, mae mor sylfaenol fel bod dwy ran y Beibl yn dwyn y teitl Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae'r gair testament yn cyfeirio at y cyfamod yma. Fel Cristnogion, yr ydym yn credu bod Duw, o'i wirfodd, wedi sefydlu cyfamodau creiddiol a chyfamodau achlysurol. Er nad oes cytundeb llwyr ynghylch nifer y cyfamodau creiddiol, fel eglwysi sy'n perthyn i draddodiad diwygiedig rydym yn ystyried bod yna dri chyfamod creiddiol.

Credwn fod Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân mewn cyfamod 'cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd wen', y cyfamod i brynu neu 'i achub gwael, golledig, euog ddyn'. Yn ail, credwn fod Duw wedi mynd i gyfamod â'n rhieni cyntaf (Genesis 2:15-17); cyfamod ar sail gweithredoedd oedd hwn, gyda Duw yn ymrwymo i fendithio a ninnau'n ymrwymo i ufuddhau i'w orchmynon. Ond, fel y gwyddom yn dda yn bersonol ac o ddarlenn y Beibl, rydym yn anuffudd, ac o ganlyniad mae gweddill y Beibl, o'r addewid yn Genesis 3:15 yn ein cyfeirio at gyfamod o ras, lle mae Duw yn addo, drwy had y wraig, drwy had Abraham, anfon yr Un fyddai'n Waredwr i'w bobl.

Y cwestiwn amlwg nawr yw: pam mae hyn yn bwysig i ni? Fel y nodais rai wythnosau'n ôl, mae'n amhosibl gwneud synnwyr o lif stori'r Beibl, ac yn arbennig o anodd gwneud synnwyr o lawer o'r hanesion unigol, os nad ydym yn deall bwriad creiddiol Duw, a'r ffordd y mae'r bwriad hwnnw'n cael ei ddatguddio yn raddol, ac yna yn gyflawn. Rydym am osgoi darllen yr hanesion am Abraham ac yn arbennig addewidion Duw i Abraham fel dim mwy

na moeswersi neu chwedlau diddorol inni elwa rywfaif ohonynt.

Yr hyn y mae'r Eglwys wedi'i gredu ar hyd y canrifoedd yw fod yr hanes am ymwneud Duw ag Abraham fel un darn o'r jig-so sydd, o'i roi at ei gilydd, yn darlunio bwriadau grasol tragwyddol Duw tuag at ei bobl, a thrwyddynt hwy tuag at y byd. Mae deall lle'r cyfamodau creiddiol hyn yn golygu y medrwn ddarllen y Beibl, gweld sut mae'r darnau'n ffitio at ei gilydd, a thrwy hyn, gweld yr un llinyn sy'n rhedeg drwy'r cyfan. Gan imi ddyfynnu emyn Pedr Fardd uchod, emynydd arall sydd wedi canu am y cyfamod yw Edward Jones yn ei emyn, 'Cyfamod, hedd, cyfamod cadarn Duw'. Er mai dim ond pedwar pennill fyddwn ni'n eu canu yn arferol, roedd yna naw yn y gwreiddiol, ac yn un ohonynt mae'r emynydd yn darlunio gwaith Duw yn y cyfamod fel gwaith crwn, cyflawn:

'Does bwlch yn hwn,  
fel modrwy'n grwn y mae;  
A'i glwm mor glôs,  
heb os nac oni bai:  
Ni all y plant  
ddim gwerthu eu meddiant mwy;  
Mae gan Dduw gylch,  
a'u deil, o'u hamgylch hwy.

Yng ngoleuni'r cyfamod gras, cyfamod rhwng Duw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân, yr ydym felly'n medru symud at ddeall y cyfamodau â phobl yn y Beibl. Mae amryw byd o'r rhain, gyda'r cyntaf yn Genesis 6:18 a 8:20-9:17, lle cawn y cyfamod â Noa a'r holl greadigaeth, addewid mae Eiseia yn cyfeirio ati yn Eiseia 54:7-10, rhai o adnodau mwyaf cysurlon y Beibl. O ran Abraham, mae'r addewidion iddo wedi'u cofnodi yn Genesis 12:1-3. Byddai Duw yn bendithio Abraham mewn dwy ffordd: (1) byddai'n dod yn genedl fawr ac felly'n cael enw mawr, a (2) trwyddo ef byddai Duw yn cyfryngu bendith i holl bobloedd y ddaear. Mae'r addewidion hyn wedyn

yn cael eu cadarnhau trwy gyfamod: (1) dimensiwn cenedlaethol addewid Duw yw ffocws Genesis 15, lle mae Duw yn sefydlu 'cyfamod ag Abram' (15:18); (2) cyfeirir at ddimensiwn rhyngwladol yr addewid yn Genesis 17:4-6,16, lle mae Duw yn cyhoeddi 'cyfamod tragwyddol' (17:7). Felly, yn Genesis 15 cawn gadarnhad mewn cyfamod o addewid Duw i wneud Abraham yn 'genedl fawr' (Genesis 12:2). Mae'r prif ffocws ar sut y bydd Duw yn gweithio allan ei fwriad yn 'had' biolegol Abraham, a gafodd eu hadnabod wedyn fel meibion Jacob (Israel). Fodd bynnag, dim ond y cam rhagarweiniol oedd hwn yng nghynllun Duw. Mae'r ail gam yn ymwneud â sut y byddai Abraham, trwy'r genedl, yn cyfryngu bendith i 'holl bobloedd y ddaear'.

I ni, mae deall ymwneud grasol Duw ag Abraham yn rhagflas o'r Un fyddai'n codi pobl i'w foli, o bob iaith a chenedl, yr Un sy'n ein galw ni i ddod i berthyn i'w deulu cyfamodol, ac i dystio i'r byd am y gras sydd yn ein cyrraedd ar waethaf ein hanallu i gyrraedd Duw. Mae Abraham yn hanes am ein llwyddiannau achlysurol, a hefyd ein methiannau. Ond, uwchlaw popeth, mae'n dyst i'r Duw sy'n ein caru a'n cofleidio. Wrth adrodd am y gras hwn, dywed Duw wrth ei bobl, 'Nid am eich bod yn fwy niferus na'r holl bobloedd yr hoffodd yr Arglwydd chwi a'ch dewis; yn wir chwi oedd y lleiaf o'r holl bobloedd. Ond am fod yr Arglwydd yn eich caru ac yn cadw'r addewid a dyngodd i'ch hynafiaid.' (Deuteronomium 7:7-8)

1. Trafodwch y syniad o gyfamod. Beth sy'n angenrheidiol mewn cyfamod, a beth yw'r pethau all ei 'dorri'?
2. Beth dybiwch chi sydd i gyfrif am gryfder cyfamod Duw?
3. 'Mae'r Beibl fel cyfrol o foeswersi yn gyfrol i ddigalonni a lethu.' Trafodwch.
4. Wrth gofio'r hyn a fedrwyd o hanes Abraham, ble mae'r enghreifftiau mwyaf eglur o'i lwyddiannau a'i fethiannau?

S4C

### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 30 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Mwy o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Salem, Llangennech

Sul, 30 Hydref, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad James Tout, Bangor

BBC radio cymru

### Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 30 Hydref am 7.30yh

Herio Hiliaeth – Ar ddiwedd Mis Hanes Pobl Ddu, cawn glywed am brofiad uniongyrchol o'r hiliaeth sy'n gallu codi ei ben yng nghefn gwlad Cymru, a'r dewrder i herio creulondeb a gwawd

## Ffydd a Diwylliant

### Anghydfurfiaeth – The Movie!

Ers wylthnosau bellach dwi wedi bod yn dilyn hanes Clwb Pêl-droed Wrecsam ar Disney+.

Mae'r cyfan wedi cydio oherwydd i ddau o sêr Hollywood, Ryan Reynolds a Rob McElhenney, brynu'r clwb.

Mae'n stori ddifyr. Y ddau, heb unrhyw gefndir mewn pêl-droed, awydd prynu clwb ym Mhrydain. O leiaf un wedi ei fagu mewn ardal ôl-ddiwydiannol, dlodaidd, glôs, yn gwerthfawrogi pwysigrwydd chwaraeon i'w cymunedau. A rywsut wedi taro ar Wrecsam ac wedi perswadio'r cefnogwyr, oedd yn berchnogion ar eu clwb, i werthu iddyn nhw.

Mae'r ffilm yn ddiddorol oherwydd ei bod hi am eu perthynas nhw a'r clwb, yr heriau a'r llwyddiannau maen nhw'n eu hwynebu wrth ei adfer. Ond mae'r ffilm hefyd yn rhan annatod o'r berthynas yna a'r adferiad hwnnw. Maen nhw'n perthyn i'w gilydd.

Be felly sy mor arbennig am y gyfres? Maen nhw'n rhaglenni gonest. Does dim coluro ar dref dlawd na chlwb sy'n stryglu mewn cynghrair ddi-nod. Does dim cuddio ar y craciau llythrennol yn y stadiwm nac ar y problemau ar y cae nac yn yr ystafelloedd



llun: <https://www.s4c.cymru/cv/v-wase/>  
page/57785/pecvyn-y-wase-w41-8-hydrif-14-hydrif/

newid. Ond pobl Wrecsam a chwaraewyr Wrecsam sydd i'w clywed – nid arbenigwyr clyfar o ffwrdd na'r cefnogwyr mwyaf slic, ond yr arbenigwyr pot peint a chefnogwyr o bob lliw a llun sydd wedi eu caledu gan dymhorau o siniciaeth a siomedigaethau. Pensiynwyr a phlant, clymau o hen fêts pêl-droed a chriwiau o ferched triw, gwirfoddolwyr a hwlighaniaid. Y cyfan sy'n gwneud Wrecsam.

Hyd y gwelwn ni mae'r ddau actor yn buddsoddi arian, amser ac emosiwn yn hyn oll.

Mae'r rhaglenni yn onest, yn gignoeth ac yn ddoniol ond hefyd yn barchus ac yn ddyrchafol.

Elfen bwysig o hyn yw perthynas y rhaglenni â Chymru a'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r gyfres o'r dechrau. Mae yna

eirfa'n ymddangos o dro i dro. Mae'r ddau yn dysgu Cymraeg. Mae yna lawer iawn o chwerthin. Er hyn, mae rhan helaeth o un rhaglen wedi ei neilltuo i hanes Cymru a'r Gymraeg. Mae'n dechrau trwy ddangos map a'r llais yn dweud: 'This is Wales. It is not England'. Peidiwch â thalu sylw i'r manylion, ond yn hytrach ystyriwch fod y neges honno a hanes Cymru a'r Gymraeg yn cyrraedd miliynau dros y byd, ac yn ôl adra yng Nghymru.

Ac mae'r cyfan yn ddoniol, yn barchus ac yn ddyrchafol.

Mae pobl yn tyrru i'r Cae Ras. Mae yna ddisgwyliadau o'r clwb a'r dref ac o'r sêr. Mae yna ddisgwyliadau o Gymru. Mae cyfle i ni gyflwyno rhagor i'r rhai sy â diddordeb, a chyfrifoldeb i beidio'u siomi. Bod yn gadarn a chroesawgar.

A pham sôn am hyn yma? Wel, tybed be ddigwyddai petai rhyw sêr am brynu capel neu enwad a chreu ffilm ohonon ni yn ein craciau a'n siniciaeth, yn cyflwyno'n bywyd a'n byd ni yn ysgafn ac yn ddoniol ond eto'n barchus a dyrchafol? Tybed be fyddai'n hymateb ni? Fydden nhw'n medru perswadio'r aelodaeth? Be fyddai'r stori? Be fyddai'r uchelgais? Lle fydden ni'n buddsoddi'r arian? Be fyddai'r byd yn ei wneud ohonon ni? Tybed allen ni godi o gynghrair anobaith?

Rocet Arwel Jones

## Y genedl Gymreig yng nghyd-destun Prydeindod, a bwyd y Cymry mewn llenyddiaeth – cip ar rifyn yr hydref o'r Traethodydd

Er mor boblogaidd yw rhaglenni ar fwyd ar y teledu ac er gwaethaf y swmp o gyfrolau ar fwyd yn y siopau, cymharol brin yw'r llyfrau Cymraeg ar y pwnc a phrinnach fyth yw'r rhai sy'n sôn am hanes bwyd yng Nghymru. Ac yntau eisoes wedi cyhoeddi ei gyfrol ddifyr *Afalau Cymru* (2018) ac yn fwy diweddar *Welsh Food Stories* (2022), aeth yr awdur o Gaerfyrddin Carwyn Graves ati yn yr ysgrif 'Y Cymry a'u bwyd: thema yn ein llên' i restru rhai o'r amryfal gyfeiriadau at fwyd yn ein barddoniaeth, o'r Hengerdd at Mererid Hopwood, gan ddadansoddi ymateb y Cymry i fwydydd. Mae'n ysgrif ddifyr, ddiddorol a – maddeuer y gair – blasus, ac mae'n ymddangos yn y rhifyn diweddaraf o'r *Traethodydd*.


Caiff ei dilyn gan ddwy ymdriniaeth swmpus a golau gan ddau o'n hysgolheigion pennaf: Huw Pryce, Athro Hanes Cymru Prifysgol Bangor, yn trafod hanesyddiaeth Gymreig, ac M. Wynn Thomas, Athro Saesneg Prifysgol Abertawe, yn cymharu'r beirdd R. S. Thomas a'r canoloeswr Siôn Cent. Mae'r ddwy ysgrif fel ei gilydd yn trafod y cysyniad o genedligrwydd, y naill yn dadansoddi fel y bu haneswyr yn y cyfnod modern cynnar yn trafod lle'r genedl Gymreig yng nghyd-destun Prydeindod, a'r llall yn ein goleuo ni ymhellach ar gymhlethdod agwedd R. S. Thomas at Gymru a dylanwad bardd

pregethwrol mwyaf trawiadol yr oesoedd canol arno. Bydd darllenwyr *Y Traethodydd* wrth eu bodd gyda'r cyfraniadau hyn.

Yn ogystal â hynny ceir adolygiadau gan Dewi Alter ar y gyfrol *A History of Christianity in Wales*, ac Emyr Gwyn Evans ar lyfr Gerald Morgan ar ewyllysiau Gymreig. Ein bardd y tro hwn yw Mary Burdett-Jones, â llun y clawr, 'Gwyfyn Gwennol' gan yr artist Gwenllian Spink, yn dangos yr ysbrydoliaeth am gerdd Mary.

Ni fu'n bosibl inni gynnwys ail ran ysgrif Pryderi Llwyd Jones ar Thomas Traherne y tro hwn, a bydd rhaid aros tan rifyn Ionawr 2023 amdani. Felly hefyd ysgrif nodedig Rowan Williams, 'Credo a Cherdd: a yw'n bosibl llunio cerdd grefyddol heddiw?' Cafodd Rowan Williams gynulleidfa helaeth ar faes Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron i wrando ar y traethiad hwn, ac mae llawer wedi gofyn a fydd modd ei weld mewn print. Gobeithio y bydd llawer yn tanysgrifio i'r *Traethodydd* ac archebu eu copi mewn da bryd ar gyfer mis Ionawr.

*Y Traethodydd*, fel y gwyyddys, yw cylchgrawn diwylliannol hynaf Cymru ac un y dylai pob llengarwr Cymraeg ei ddarllen. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd](http://www.ytraethodydd).



[cymru](http://cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Denis Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch cysylltwch â: [swyddfa.office@ebcpcw.cymru](mailto:swyddfa.office@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Cydwybod a maddeuant

**Emyn 371: 'Er chwilio'r holl fyd'**

**Darlleniad: Salm 32**

**Gweddi**

Drugarog Arglwydd, dysg ni i adnabod ffyrdd y rhai sy'n wyn eu byd. Cyffeswn ger dy fron pa mor andwyol i les ein henaid a'n calon yw methu cydnabod ein pechod. Gwyddom o brofiad beth yw colli golwg arnat a rhodio fel creaduriaid direswm. Gwyddom am y poenau a ddaw i'n cydwybod a'n henaid wrth i ni galedu ein calonnau yn erbyn dy Ysbryd Glân ac am y llawenydd o fedru cysgodi yn dy ddaioni yn Iesu Grist. Dysg ni o'r newydd beth yw'r llawenydd gwynfydedig a ddaw i ni o wybod bod ein pechodau wedi eu maddau a'u cuddio, ac nad ydwynt yn cyfrif ein beiau i'n herbyn byth mwy. Diolch am yr Arglwydd Iesu Grist.

Cyffeswn felly ein haml bechodau, gan lwyr gredu dy fod yn ffyddlon ac yn gyfiawn wrth i ti faddau i bechaduriaid edifeiriol eu holl anwireddau drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

**Darlleniad: Luc 19:1-10 'Iesu a Sacheus'**

Tybed a oes yna hanes yn y Beibl sy'n fwy annwyl gan blant ysgolion Sul? Dacw ddynd bach, bach oedd yn cuddio rhag y dorf am nad oeddynt yn ei hoffi. Â'i draed sandalog i'w gweld ar ganghennau isa'r goeden, rhwydd i'r plentyn sydd ym mhob un ohonom ydyw dychmygu'r cyfarfyddiad rhyfedd hwnnw rhwng Iesu a Sacheus a drodd 'ddyn drwg' yn 'ddyn da'.

**Gwawdlun**

Ond gorsymleiddio hyd at fod yn wawdlun (*caricature*) yw dealltwriaeth o'r fath. Mae'r hyn a gofnodwyd gan Luc (a Luc yn unig o blith yr Efengylwyr) yn llawer iawn cyfoethocach na hynny. Hwn oedd y digwyddiad diwethaf cyn i Iesu gyrraedd cyrion Jerwsalem a'r tro olaf i Iesu sôn wrth ei ddisgyblion am ei ddiodeffaint (18:31) ac am bwrpas ei ddyfodiad i'r byd (19:10).

Drosodd a thro dangosodd Luc i ni fod Iesu wedi dod i gyhoeddi newyddion da i dlodion, i ryddhau carcharorion, ac i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd. Daeth Iesu a throwyd y cyfoethogion ymaith yn waglaw, a llanwyd y tlodion â phethau da. A phe byddem yn darllen yr adnodau cyn hanes Sacheus, fe welem yr hanesion am lywodraethwr goludog, moesol, a

gefnodd ar Iesu am fod y gost o ganlyn Iesu yn ormod iddo, ac am gardotyn dall a groesawodd ac a groesawyd gan Iesu. Yn wahanol i'r llywodraethwr ifanc goludog, croesawodd Sacheus arglwyddiaeth Iesu, a daeth iachawdwriaeth a llawenydd i'w gartref.

**Cefndir**

Iddewon oedd rhieni Sacheus. Rhoesant enw tlws i'w mab, enw a fynegai eu hawydd y byddai eu mab yn tyfu'n 'bur' a 'chyfiawn'. Eironi'r hanes yw fod Sacheus, yng ngolwg ei gyfoedion Iddewig o leiaf, wedi gwadu ei bobl ac wedi ymwrthod â'i enw a'i etifeddiaeth. Dyn bychan ydoedd, ond roedd yn 'brif gasglwr trethi' i'r Rhufeiniaid yn Jericho.

Mae hanes dinas Jericho yn ymestyn yn ôl dros 11,000 o flynyddoedd. Roedd yn ddinas ffrwythlon â llawer o ddŵr a phalmwydd. Yno cynaeafid sudd y goeden balsam i greu balm llesol a gwerthfawr. Teithiai marsiandwyr heibio i Jericho ar hyd un o 'briffyrdd masnachu' yr hen fyd. Roedd yn ddinas ddymunol i fyw ynddi ac yn lle perffaith i 'brif gasglwr trethi' fel Sacheus ddod yn gyfoethog iawn! Er ei bwysigrwydd, i'w gyd-wladwyr, bradwr, gwas pwped i'r Rhufeiniaid, ydoedd!

**Heb oedi**

Ar ei ymdaith tuag at y Pasg yn Jerwsalem a'i ddiodeffaint ar Galfaria, ni fwradi Iesu oedi ac aros yn Jericho wrth iddo 'fynd drwy'r dref'. Er hynny, roedd amser ganddo i oedi yng nghwmni 'casglwr trethi' atgas.

Aeth Sacheus ar frys, yn ddi-oed, i ganol y dyrfa i gael 'gweld p'run oedd Iesu'. Cymaint oedd ei awydd i weld Iesu fel y dringodd goeden ac o'i changhennau deiliog gallai graffu ar y proffwyd teithiol heb ei wynebu.

Mae'n siŵr fod Sacheus wedi clywed trafodaethau am Iesu. Roedd y Phariseaid, yr ysgrifenyddion a'r offeiriaid ar yr un llaw yn cyhuddo Iesu o gabledd, o fod dan ddylanwad Belsebwb. Ac ar y llaw arall gwyddai Sacheus fod Mathew, a fu'n gasglwr trethi fel yntau, bellach yn ddisgybl i Iesu.

Yr un yw'r her – 'p'run' yw Iesu heddiw: y dyn da, y proffwyd da, y gwallgofddynd, Mab y Dyn? Ym mhob oes erys y cwestiwn y mae pob un ohonom yn gorfod ymateb iddo.

**Digio**

Un peth oedd iacháu cardotyn dall a hawdd oedd i bawb ymuno pan roddodd 'yr holl bobl foliant i Dduw' (18:35-43). Ymunodd 'pawb' drachefn wrth i Iesu ymwneud â Sacheus, ond, y tro hwn, 'dechreuodd pawb rwnach ymhlith ei gilydd'. Mor aml y cawn ein tramgwyddo gan y cwmni y mae Iesu'n ei gadw! (adn. 7).

**Cyfarfyddiad**

Iesu ei hun a oeddoddi i alw ar Sacheus. Nid ei gyfoeth, nid ei statws, ond ei angen a barodd i Iesu oedi. Er mai yng nghartref Sacheus y byddai'r swpera'n digwydd, Iesu oedd yr Arglwydd, ac ef a'i gwahoddoddi ei hun i rannu ym mywyd Sacheus. Derbyn neu wrthod y gwahoddiad yn unig a fedrai Sacheus ei wneud.

Tyfodd Sacheus mewn eiliad i fod yn ddyn oedd, er bychander ei gorff, yn fawr mewn baint. Safodd, efallai am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Safodd Sacheus heb orfod cuddio'i wyneb mwyach. Safodd Sacheus mewn llawenydd. Ym mhob derbyniad o'r newyddion da bydd llawenydd yn ganlyniad (e.e. Luc 2:13, 20).

**Adnabod**

Er na allai'r Phariseaid crefyddol ynganu'r gair, cyfarchodd Sacheus yr 'Arglwydd' oedd ar ymdaith i'w orsedd. Fel arwydd o'i edifeirwch am yr hyn a fu, addawodd i'w Arglwydd newydd y byddai ei fywyd yn newid. Ac fel arwydd o hynny byddai'n parhau i roi'n hael i'r tlodion ac yn adalu'r hyn a gymerwyd yn anghyfreithlon ganddo bedair gwaith drosodd (Lefiticus 6:5; Numeri 5:7; Exodus 22:1,2).

Ildiodd Sacheus lle methodd y llywodraethwr ifanc goludog. 'Heddiw,' yn ôl gair Iesu, 'daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn'. Mae 'heddiw' parhaol yng ngwahoddiad Iesu ac y mae yn y gwahoddiad addewid o adferiad ac o iachawdwriaeth.

Dysgodd Sacheus ystyr y salm: 'Gwyn ei fyd y sawl y maddeuwyd ei droseddau.' A gwyn ei fyd y rhai a welodd eu hangen ac a sylweddolodd drostynt eu hunan y 'daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig'.

**Gweddi**

Arglwydd, tyrd â'th iachawdwriaeth i'n tŷ ni heddiw. Tyrd, heddiw, a thyrd ar bob 'heddiw' o'n hoes i gyflawni gwaith dy iachawdwriaeth adferol yn ein bywydau. Gogonedda dy hun. Amen.

**Emyn 313: 'Gwn pa le'**

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [hww@cennad.cymru](mailto:hww@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)



CennadCymru



@CennadCymru